Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Llanddoged
Llanddoged
Llanrwst
Conwy
LL26 0BJ

09/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Llanddoged yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a gwella cyflwyniad eu gwaith

- Drwy ymgymryd ag ystod o weithgareddau monitro pwrpasol, mae'r pennaeth yn adnabod yr angen i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i wella eu medrau rhifedd a digidol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ac maent yn cydweithio'n fwriadus â staff ysgolion y clwstwr i gynllunio gweithgareddau rhifedd a digidol sy'n cysylltu'n bwrpasol â'r themau tymhorol.
- Erbyn hyn, mae'r athrawon yn cyflwyno ystod addas o brofiadau ysgogol sy'n datblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion yn bwrpasol. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y profiadau hyn yn cynnig cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg yn gynyddol annibynnol.
- Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau. Mae'r disgyblion yn dewis sut i gofnodi eu gwaith mewn amrywiaeth o gyfryngau digidol gan ddefnyddio apiau priodol.

- Mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion yn cymryd balchder yn eu gwaith ac yn cofnodi'n daclus. O ganlyniad, mae cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn dda.

**Mireinio'r asesu ar gyfer dysgu i ganolbwyntio ar effaith ar gamau nesaf yn y dysgu ac asesu cymheiriaid.**

- Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi adnabod yr angen i sicrhau bod adborth i ddisgyblion yn fwy pwrpasol ac yn eu galluogi i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r staff wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu dulliau newydd sydd erbyn hyn yn dechrau gwreiddio ar draws yr ysgol.
- Mae staff wedi cael cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol, ac maent wedi mireinio eu dulliau o roi adborth effeithiol. Mae'r dulliau hyn yn dechrau cael eu gweithredu yn y dosbarthiadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth dda o'r camau nesaf yn eu dysgu.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig adborth amserol a phriodol i ddisgyblion. Maent yn dechrau datblygu cyfleoedd yn ystod y dysgu i fynd i'r afael â chamsyniadau ac i roi adborth i ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i ddatblygu hyn ymhellach gan roi ffocws ar wella elfennau o gynnwys gwaith y disgyblion.
- Mae staff yn dechrau defnyddio technegau holi priodol sydd, ar y cyfan, yn cynorthwyo disgyblion i ddyfnhau eu dysgu a'u dealltwriaeth o gysyniadau. Lle mae'r arfer ar ei gorau, mae disgyblion yn cael eu hannog i drafod ac i fyfyrio ar eu dysgu. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddeall ac i fynd i'r afael â'r camau nesaf yn eu dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6623039](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6623039)

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol